**Yr Ail Gynulliad**

**Cyfarfod Llawn (34)**

**Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2003**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cynigion i newid aelodaeth y Pwyllgorau Pwnc**
**NDM1702 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Helen Mary Jones (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn lle Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru).

**NDM1703 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle Dai Lloyd (Plaid Cymru).

**NDM1704 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn lle Janet Ryder (Plaid Cymru).

**NDM1705 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle Janet Ryder (Plaid Cymru).

**NDM1706 Karen Sinclair (De Clwyd) - TYNNWYD YN ÔL**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 15.4, yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn lle Rhodri Glyn

Thomas (Plaid Cymru).

**NDM1707 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Janet Ryder (Plaid Cymru) i fod yn aelod o’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lle Helen Mary Jones (Plaid Cymru).

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
*Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau*

**Eitem 5**
**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar Bydredd Cylchog mewn tatws**

**Eitem 6 - Mae'r eitem yma wedi'i gohitio tan 25 Tachwedd**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Cynhelir pleidlais arno’n syth***
***Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25***
***NDM1709 Karen Sinclair (De Clwyd)***

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 mewn perthynas â’r Gorchymyn drafft Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weldy Rheoliadau
Cliciwch yma i weldAdroddiad y Pwyllgor Deddfu
Cliciwch yma i weldyr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

4.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

5.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfu
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

6.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Diwygio) (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Diwygio) (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

7.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Dim copi Cymraeg ar gael

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog**
**NDM1708 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 34:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2003;

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a nodwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd; ac

3. Yn nodi y bydd canllawiau diwygiedig ar osod dogfennau ger bron y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi gan y Llywydd er mwyn adlewyrchu Rheol Sefydlog newydd 37.

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**Eitem 8**
**Dadl ar y Gyngres Ryngwladol ar gyfer Pobl Ifanc Anabl**
**NDM1711 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu "Rights Into Action", y Gyngres Ryngwladol ar gyfer Pobl Ifanc Anabl a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2003;

2. Yn nodi’r Siarter y cytunodd y cyfranogwyr arni;

3. Yn croesawu’r ffaith y bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried y materion a godwyd fel rhan o’i adolygiad polisi ar "Brif Ffrydio Cydraddoldeb" yn ystod 2004; ac

4. Yn ymrwymo i hyrwyddo cyfranogiad pobl ifanc anabl yn y broses o wneud penderfyniadau, ac i brif ffrydio’r materion sy’n bwysig i bobl ifanc anabl o fewn pob portffolio datganoledig.

*E-bostiwyd copi Saesneg o’r Siarter at Aelodau’r Cynulliad ar 12 Tachwedd 2003.*

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol**

**Gwelliant 1**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod pwysigrwydd i bobl ifanc anabl bolisïau i hybu dinasyddiaeth gydradd, hygyrchedd, diwylliant cydraddoldeb, cyfleoedd dysgu cyfartal a mynediad cyfartal at waith a grantiau.

**Eitem 9**
**Dadl ar yr Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd**
**NDM1710 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyhoeddiad "Amgylchedd iach a gweithredol i Gymru: Cyflwr Amgylchedd Cymru yn 2003", adroddiad ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru; ac;

2. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru (yn "Cymru: Gwlad Well") i ddatblygu strategaeth amgylcheddol i Gymru mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn.

*Gellir dod o hyd i gopi o "Cymru: Gwlad Well" drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:*
*http://www.wales.gov.uk/themesbettercountry/strategic-e.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar we'r Siambr*
*http://www.cymru.gov.uk/themesbettercountry/strategic-w.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar we'r Siambr*

*Anfonwyd copïau Cymraeg a Saesneg o "Amgylchedd iach a gweithredol i Gymru: Cyflwr Amgylchedd Cymru yn 2003" mewn e-bost at yr Aelodau ar 12 Tachwedd.*

*Mae disg gryno sy'n cynnwys manylion technegol llawn yn ategu'r Adroddiad wedi cael ei rhoi yn Llyfrgell yr Aelodau.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu sut i'w trefnu at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnalyn unigol:*

**(1), (3) + (4)**
**(2) + (5)**
**(6), (7), (8), (9), (10), (11), (12), (13), (14) + (15)**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

", ond gan fynegi pryder nad yw amgylchedd Cymru yn dangos fawr o arwyddion, os o gwbl, o wella."

**Gwelliant 2**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd paragraff 2:

"ac i roi mwy o bwyslais yn y dyfodol ar wneud nag ar ddweud."

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ganfod ar fyrder a fyddai tystiolaeth sy'n dangos bod cnydau GM yn fygythiad i fywyd gwyllt yn rhoi digon o sail gyfreithiol i wahardd cnydau GM yng Nghymru."

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi gyda phryder na wnaed fawr o gynnydd at gyrraedd y targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac mae'n galw ar y Gweinidog i roi adroddiad cynnydd i'r pwyllgor priodol."

**Gwelliant 5**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod gwerth cynlluniau amaeth-amgylcheddol i'r amgylchedd ac yn galw am adfer y toriad arfaethedig yn y cyllid i Tir Gofal."

**Gwelliant 6**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi record wael Cymru am ailgylchu ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i annog pob rhanddeiliad i gwrdd â thargedau'r Strategaeth Wastraff.

**Gwelliant 7**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon Grwp Ymgynghorol Technegol (TAG) Llywodraeth y Cynulliad am yr oedi hir cyn cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN8) a chanlyniadau hynny ar y diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**Gwelliant 8**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Lafur y Cynulliad i brysuro'i hymdrechion i roi fframwaith amaeth-amgylcheddol eang a bas ar waith.

**Gwelliant 9**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i roi prosiectau enghreifftiol gerbron sy'n dangos gostyngiad sylweddol mewn lefelau carbon ac sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

**Gwelliant 10**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ehangu ei strategaeth ynni adnewyddadwy i gynnwys systemau foltaig, bio-mas a thyrbinau'r llanw.

**Gwelliant 11**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Lafur y Cynulliad eto wedi cwrdd â gofynion Deddf Ynni Cynaliadwy 2003 o ran dynodi amcan arbed ynni ar gyfer tai preswyl.

**Gwelliant 12**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am strategaeth rhosdiroedd yn arbennig i Gymru, i fynd i'r afael â bioamrywiaeth mewn ardaloedd mynyddig ac i ddefnyddio'r tir yno'n broffidiol.

**Gwelliant 13**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r adroddiad yn ymdrin â'r diffygion yn y modd y rheolir gwlyptiroedd

Cymru.

**Gwelliant 14**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu'n fawr bod yr adroddiad yn rhoi cyn lleied o sylw i safleoedd "Treftadaeth y Byd".

**Gwelliant 15**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r adroddiad hwn wedi mynd i'r afael ag ehangu cysyniad biosffer UNESCO yng Nghymru.

**Eitem 10**
**Dadl fer - NDM 1701 William Graham (Dwyrain De Cymru);** Yn Sâl ac yn Dal i Aros – y GIG yn Ne-ddwyrain Cymru

**Bydd y cyfarfod wedi gorffen erbyn 5.30pm**

**************